



# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

### Nodiadau Cyfarwyddyd

- Gall aelodau'r Cynllun fynegi dymuniad bod unigolyn (unigolion) a / neu fudiadau penodol yn derbyn unrhyw Gyfandaliad Grant Marwolaeth sy'n daladwy dan reoliadau **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997**.
- Diben llenwi ffurflen mynegi dymuniad mewn perthynas â'r grant marwolaeth yw sicrhau, os byddwch yn marw, bod unrhyw gyfandaliad yn cael ei dalu yn unol â'ch dymuniadau chi. Gellir sicrhau hynny hefyd wrth gwrs drwy wneud Ewyllys. Y fantais o fynegi dymuniad fodd bynnag yw na ellir codi Treth Etifeddiant ar yr arian gan na fyddai'n rhan o'ch Ystâd.
- Os byddwch yn dymuno enwebu 'plentyn dan oed', sylwer y bydd unrhyw daliad mewn perthynas â'r enwebai hwn yn cael ei wneud i gronfa ymddiriedolaeth.
- Cyngorir chi i wneud copi o unrhyw ffurflen mynegi dymuniad y byddwch yn ei llenwi, ynghyd â'r nodiadau hyn, a'u cadw mewn lle diogel. Er bod gan yr Awdurdod Gweinyddu, dan y Gyfraith Bensiynau, yr hawl i wrthod unrhyw enwebiad a wnewch, diben mynegi dymuniad yw eich helpu i wneud cynlluniau ariannol priodol rhag ofn i chi farw cyn pryd.
- Gallwch newid dymuniad a fynegwyd gennych ar unrhyw adeg, ond dylech gofio y bydd unrhyw ddymuniad a fynegir o'r newydd yn disodli'r dymuniad a fynegwyd yn flaenorol. Os, yn y dyfodol, y byddwch am newid dymuniad a fynegwyd gennych, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn yn y cyfeiriad isod.
- Swm y grant marwolaeth sy'n daladwy yw:
  - 2 x cyflog cyfartalog eich gyrfa os ydych yn aelod gweithredol o'r CPLIL.
  - 3 x pensiwn cronnus ynghyd â'r codiadau cynyddol mewn pensiwn os ydych yn aelod gohiriedig (wedi gadael y gyflogaeth ac wedi gohirio'r budd-daliadau nes cyrraedd Oed Ymddeol Arferol sef 65).
  - 5 x pensiwn blynyddol llai unrhyw daliadau a wnaed eisoes os ydych yn aelod bensiynwr dan 75 oed.
- Cyngorir chi o ddifrif i wneud Ewyllys os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Lluniwyd y ffurflen mynegi dymuniad hon er gallu ymdrin â thaliad posib y mawr obeithiwn na fydd angen ei wneud. Mae Ewyllys yn sicrhau bod gweddill eich arian mewn trefn.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych yn dymuno rhagor o fanylion cysylltwch â:

**Cronfa Bensiwn Dyfed**  
**Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job,**  
**CAERFYRDDIN**  
**SA31 3HB**

**Ebost:** [pensiynau@sirgar.gov.uk](mailto:pensiynau@sirgar.gov.uk)



# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Mynegi Dymuniad eich Grant Marwolaeth

(Os oes angen rhagor o le, rhowch y manylion ar daflen ar wahân)

Manylion Personol			
Enw:			
Rhif Yswiriant Gwladol:		Dyddiad Geni:	
Cyfeiriad Cartref:			
		Cod Post:	

Dewis iaith <span style="float: right;">(✓ y blwch priodol i nodi eich etholiad)</span>			
Fel aelod o'r CPLIL, hoffwn dderbyn <b>HOLL</b> ohebiaeth a ddaw yn y dyfodol yn:			
GYMRAEG	<input type="checkbox"/>	SAESNEG	<input type="checkbox"/>
		DDWYIEITHOG	<input type="checkbox"/>

Mynegi Dymuniad (Buddiolwr 1)			Cyfran
Enw:			%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
		Cod Post:	

Mynegi Dymuniad (Buddiolwr 2)			Cyfran
Name:			%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
		Cod Post:	

Mynegi Dymuniad (Buddiolwr 3)			Cyfran
Enw:			%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
		Cod Post:	

Datganiad	Dychweler y ffurflen hon i Gronfa Bensiwn Dyfed		
<p><b>Rydw i wedi darllen y nodiadau drosodd.</b> Gofynnaf i Cyngor Sir Gâr (yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed) ddefnyddio disgresiwn llwyr wrth ystyried talu unrhyw lwmp swm budd marwolaeth sy'n ddyledus dan CPLIL i'r unigolyn/unigolion ac/neu sefydliad(au) a enwir uchod ac (os yn fwy nag un) eu rhannu yn unol â'm mynegiant dymuniad. <b>NODWCH</b> os nad ydych yn nodi eich dewis iaith uchod, bydd <b>POB</b> ohebiaeth yn y dyfodol yn cael ei anfon atoch yn <u>fformat ddwyieithog</u>.</p>			
Llofnod:		Dyddiad:	